# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwllgor 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 18 Ionawr 2018 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Blakeley, Rachel Flynn, Tina Jones, Anton Sampson, Glenn Swingler, Andrew Thomas, Graham Timms (Is-Gadeirydd), Cheryl Williams a Huw Williams (Cadeirydd)

Roedd y Cynghorwyr Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Adfywio a'r Amgylchedd a Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol yn bresennol ar gais y Pwyllgor ar gyfer eitemau 5 ac 8 ar y rhaglen

**Arsylwyr –** Y Cynghorwyr Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving a Richard Mainon

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Pharth y Cyhoedd (GB), Traffig, Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Phriffyrdd (TW), Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad (HR), Rheolwr y Rhaglen – Cyfleusterau, Asedau a Thai (TB), Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## CROESO

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd groeso arbennig i Charlotte Owen o Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn bresennol i arsylwi gweithdrefnau fel rhan o waith maes, ar gyfer yr astudiaeth genedlaethol ar Archwilio 'Parod at y Dyfodol'.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Meirick Davies a Merfyn Parry

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2017.

**Materion yn Codi -** Tudalen 9 Eitem 5 Arwyddion Cyfeiriad i Dwristiaid ar gyfer Dyffryn Clwyd – Roedd dadansoddiad manwl o gostau a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect Arwyddion Twristiaeth, fel a oedd yn ofynnol gan yr aelodau yn y cyfarfod diwethaf, wedi'u cynnwys ym mriff gwybodaeth y Pwyllgor (a gylchredwyd yn flaenorol). Roedd y cyfarfod nesaf o'r Gweithgor a sefydlwyd i symud ymlaen â darpariaeth o'r prosiect wedi'i drefnu ar gyfer 19 Ionawr 2018.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.*

## 5 DELIO Â CHOED

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Tai, Adfywio a'r Amgylchedd a'r Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol adroddiad y Rheolwr Cefn Gwlad a Threftadaeth (a gylchredwyd yn flaenorol), gan roi gwybod i aelodau bod eisiau eu barn ar weithdrefn ddrafft i reoli pob gweithgaredd yn ymwneud â choed ar draws y sir. Fe wnaethant esbonio bod y penderfyniad i lunio gweithdrefn wedi codi o her gwasanaeth diweddar a oedd wedi tynnu sylw at yr angen am weithdrefn a chanllaw ysgrifenedig i gynorthwyo swyddogion ar draws yr awdurdod i ateb ymholiadau rheoli coed. Gan fod nifer o wasanaethau'r Cyngor gyda choed wedi'u lleoli yn eu heiddo neu o'i gwmpas, roedd rheoli coed yn gyfrifoldeb ledled yr awdurdod. Felly, roedd angen gweithdrefn hygyrch iawn, sy'n gyfeillgar i ddefnyddwyr, i helpu swyddogion i ddelio ag ymholiadau'n ymwneud â'u rheolaeth. Byddai bodolaeth gweithdrefn o'r fath hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol fel perchennog tir, ei ddyletswyddau rheoleiddio o dan y Deddfau Cynllunio, ac i gefnogi'r ddarpariaeth o nifer o elfennau yn y Flaenoriaeth Amgylcheddol o'r Cynllun Corfforaethol newydd, wrth gefnogi ei uchelgeisiau bioamrywiaeth ar yr un pryd. Roedd cyflwyniad y weithdrefn ddrafft i'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau aelodau'n ffurfio rhan o'r broses ymgynghori ar ei gynnwys. Unwaith y byddai'n cael ei gymeradwyo, byddai'n cael ei gyhoeddi ar wefan a mewnrwyd y Cyngor, a byddai dogfen Cwestiynau Cyffredin, hawdd ei darllen, yn cael ei chynhyrchu er mwyn gallu cyfeirio ati.

Cyn gwahodd cwestiynau gan aelodau o'r Pwyllgor, croesawyd y Cynghorydd Hugh Irving i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, a'i wahodd i annerch y Pwyllgor, gan fod y Cynghorydd Irving wedi gofyn yn ffurfiol bod Archwilio'n ymchwilio i'r angen am bolisi neu weithdrefn ledled y sir i ddelio â choed. Yn ei anerchiad, croesawodd y Cynghorydd Irving y weithdrefn, gan nodi esiamplau o broblemau a gafodd eu hachosi gan goed wedi gordyfu ac ati, o'i brofiad fel cynghorydd. Cefnogodd yr awgrym o gael fersiwn cryno hawdd ei ddarllen o'r weithdrefn, a fyddai'n ddefnyddiol i swyddogion, cynghorwyr a phreswylwyr fel ei gilydd.

Wrth ymateb i gwestiynau'r Aelodau, fe wnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi ac Uchelgais Cymunedol, y Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol, a'r Rheolwr Gwasanaethau Cefn Gwlad a Threftadaeth -

- gadarnhau mai'r egwyddor sylfaenol i gael gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer delio â choed oedd amddiffyn coed ar draws y sir lle bynnag y bo'n bosibl, drwy sicrhau mai tocio coed fyddai'r dewis olaf h.y., os oedd yn achosi neu'n peri perygl. Trafodwyd yr agwedd hon yn Adran 15 o'r weithdrefn ddrafft

- rhoi gwybod na fyddai coed yr ystyrir iddynt fod yn ‘rhwystro golau naturiol’ i eiddo’n cael eu dosbarthu fel perygl, ac felly ni fyddent yn cael eu tocio neu eu torri ar y sail honno
- esbonio’r broses ar gyfer gwneud cais am Orchymyn Cadw Coed (TPO) a dywedwyd nad oedd TPO yn gyfyngedig i amser. Os byddai’n cael ei ystyried yn addas i dorri coeden i lawr a oedd gyda TPO, byddai cais yn gorfod cael ei wneud ar gyfer diddymiad, neu amrywiad, i'r gorchymyn. Os byddai’r Cyngor yn caniatáu’r diddymiad/amrywiad, gallai wneud hynny ar y sail bod coeden newydd yn cael ei phlannu yn ei lle, ac y gallai’r goeden newydd hefyd fod yn destun TPO. Roedd y mwyafrif o goed a oedd yn destun TPO wedi’u lleoli ar dir preifat, ac nid ar dir a oedd yn berchen i’r Cyngor
- cadarnhau bod Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor yn cynnwys strategaeth ar gyfer mynd i’r afael â’r diffyg coed mewn mannau penodol o’r sir
- rhoi gwybod bod yr Adran Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd wedi cyflogi swyddog TPO a oedd yn delio ag ymholiadau a oedd yn ymwneud â TPO, tra bod y Gwasanaethau Priffyrdd ac Eiddo’n cynnal asesiadau risg mewn perthynas â choed;
- rhoi gwybod bod ardal ‘hunan-wasanaethu’ ar borth Gwasanaeth Cynllunio’r Cyngor y gallai preswylwyr, cynghorwyr a staff ei ddefnyddio i weld a oedd coeden benodol yn destun TPO. Fodd bynnag, nid oedd gan y Cyngor ddigon o adnoddau i fonitro cydymffurfiad yn rheolaidd â TPO, ond os oedd aelod o’r cyhoedd yn cysylltu â’r Cyngor yn mynegi pryderon bod coeden TPO mewn perygl o gael ei thorri heb ganiatâd y Cyngor, neu heb gael gorchymyn amrywio, gallai Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd gyhoeddi rhybudd gorfodi i’w diogelu
- cadarnhau nad oedd y Cyngor yn chwistrellu plaladdwyr ar goed. Roedd sudd ac ati, a oedd yn cael ei achosi oherwydd pla llau’r coed, yn cael ei ystyried yn fath derbyniol o niwsans
- rhoi gwybod bod cynllun busnes yn cael ei lunio o ran y cynnig yn y Cynllun Corfforaethol i blannu 18,000 o goed, yn Ninbych a’r Rhyl, i’w gyflwyno i Fwrdd y Rhaglen yn Chwefror ynghylch sut y gellir gwireddu’r uchelgais hwn. Roedd Swyddogion yn hyderus, gyda'r arian a oedd ar gael o ffynonellau eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru a Menter Plant! Llywodraeth Cymru (lle mae coeden frodorol yn cael ei phlannu yng Nghymru ar gyfer pob plentyn sy’n cael ei eni neu ei fabwysiadu), y gellir darparu’r elfen hon o’r flaenoriaeth gydag ychydig o fewnbwn ariannol gan y Cyngor. Mewnbwn y Cyngor fyddai darparu staff i blannu’r coed
- rhoi gwybod i aelodau, fel rhan o’r gwaith sy’n ofynnol i gyflawni blaenoriaeth yr Amgylchedd a gynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol, y gellid ystyried cyflogi 'Swyddog Coed,' arbenigwr yn y maes, a fyddai'n helpu i reoli a chydlynu gwaith yn ymwneud â choed ar draws yr awdurdod. Roedd hyfywedd ariannol creu’r swydd hon yn cael ei asesu ar hyn o bryd Roedd gan y Cyngor ‘Swyddog Coed’ ychydig o flynyddoedd yn ôl, ond pan ymddeolodd deiliad y swydd, penderfynwyd cael gwared ar y swydd fel rhan o’r broses arbedion effeithlonrwydd
- cadarnhau bod gan y Cyngor bwerau o dan Ddeddf Priffyrdd (Coed Peryglus, 1980), i wneud i berchnogion coed sy’n peri rhwystr ar y briffordd gael gwared arnynt. Os nad oeddent yn cydymffurfio gyda chais y Cyngor, byddai’r Awdurdod yn cael gwared arnynt ac yn codi tâl priodol ar y perchennog tir

- rhoi gwybod nad oeddent yn gallu gweld unrhyw fudd i'r awdurdod lleol drwy drosglwyddo cyfrifoldebau dros reoli coed i gynghorau tref neu gymuned
- cadarnhau bod pob Gwasanaeth y Cyngor yn gyfrifol am y coed a oedd ar neu wrth ymyl tir neu eiddo roeddent yn eu rheoli e.e. tai, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, gwasanaethau hamdden ac ati. Ad-delir am unrhyw waith adferol a wnaed gan y Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol i sicrhau diogelwch preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth ar ac o amgylch safleoedd a reolir gan wasanaethau eraill, i gyllideb y Gwasanaeth hwnnw. Roedd y mater o godi ad-daliad ar wasanaethau am waith a wnaed yn ddadl ehangach, a oedd angen digwydd ar draws y Cyngor - roedd yn werth archwilio rhinweddau cael 'cyllideb' er mwyn gwneud gwaith i gadw preswylwyr a'r cyhoedd yn ddiogel mewn eiddo dan berchnogaeth y Cyngor, neu mewn ardaloedd o'u cwmpas, ar sail yn ôl y gofyn
- gall cyfrifoldeb ysgolion am ddiogelwch a chynnal a chadw coed ar eu tir gael eu dirprwyo i bob ysgol yn unol â'u cyllideb ddirprwyedig
- pwysleisio'r angen i gynghorwyr neu'r cyhoedd a oedd â phryderon am ddiogelwch coed i'w hadrodd i Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor, fel bod pob ymholiad yn cael ei gofnodi ar y system CRM a'i ddyrannu i'r Gwasanaeth er mwyn mynd ar ei drywydd  Byddai hyn yn sicrhau bod llwybr archwilio'n bodoli ar gyfer bob ymholiad
- rhoi gwybod, os oedd unrhyw anghydfod rhwng cymdogion oherwydd uchder gwrychoedd ac ati, y byddai'r rhain yn cael eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.  Fodd bynnag, fe wnaeth Adran 3 o'r weithdrefn ddrafft gyfeirio at Ddeddf Gwrychoedd Uchel, Rhan 8 o'r Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, 2003, a'i darpariaethau mewn perthynas ag effaith twf gwrych bytholwyrdd ar olau naturiol.  Cyfeiriwyd pobl at yr adran hon hefyd o dan y 'Gyfraith Gyffredin' i leihau niwsans sy'n cael ei achosi gan goed yn mynd ar y tir
- cadarnhau bod y weithdrefn ddrafft yn destun ymgynghoriad mewnol ar hyn o bryd gyda'r Cyngor.  Nid oedd ymgynghori wedi'i ymestyn hyd yn hyn yn allanol i'r cyhoedd, awdurdodau cyfagos neu Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru (NWTRA).  Fodd bynnag, cydnabuwyd bod NWTRA yn rheoli coed yn effeithiol ar hyd ei rwydwaith.  Unwaith roedd y Cyngor yn hapus gyda'r weithdrefn, byddai swyddogion yn fodlon ei rhannu gyda NWTRA
- cytuno i wneud ymholiadau ar nifer o honiadau a wnaed yn erbyn y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, o ran y difrod a achoswyd gan goed sy'n berchen i'r Cyngor, a'r symiau a dalwyd i setlo honiadau o'r fath
- cytunodd y swyddogion i gylchredeg dolen gyswllt i aelodau i'r adran berthnasol o wefan y porth Cynllunio sy'n cyfeirio at ddeddfwriaeth amrywiol a chanllaw TPO, gwrychoedd uchel a choed, a oedd yn cynnwys mapiau'n dangos coed a oedd eisoes yn destun TPO.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r ddogfen weithdrefn derfynol gynnwys cyfeiriad penodol at berchnogaeth coed nad oedd ar briffyrdd, wedi'u lleoli yng nghyffiniau tiroedd ysgol, neu arnynt, cyfleusterau hamdden, cyfleusterau gofal cymdeithasol, neu eiddo arall sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor, a'r angen am 'reolwr safle cyfrifol' i sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud er mwyn i asesiadau risg iechyd a diogelwch rheolaidd gael eu gwneud ar goed yn y safleoedd hynny.   Mynegodd yr Aelodau bryderon ynghylch a oedd rheolwyr eiddo'r Awdurdod wedi'u hyfforddi'n addas neu'n gymwys i gynnal asesiadau risg ar goed at ddibenion atebolrwydd cyhoeddus, ac a allai'r

Cyngor neu reolwyr unigol fod mewn risg o fod yn agored i gamau cyfreitha, drwy beidio ag asesu diogelwch y coed ar yr eiddo yma gan unigolion â chymwysterau addas.

Ar ddiwedd y drafodaeth -

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, a chynnwys cyfeiriad penodol yn y ddogfen bod 'rheolwr safle cyfrifol' ym mhob eiddo wedi'i redeg gan y Cyngor, yn sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch rheolaidd ar yr holl goed nad ydynt ar briffyrdd, ar neu o amgylch y safle, at ddibenion diogelu defnyddwyr safle a'r cyhoedd, i gefnogi'r dull a amlinellir yn y ddogfen gaffael 'Delio â Choed'.*

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a gylchredwyd ymlaen llaw) sy'n gofyn i'r Aelodau adolygu Rhaglen Waith y Pwyllgor a rhoddodd ddiweddariad ar faterion perthnasol.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y canlynol –

- ail-gadarnhawyd y tair eitem ar y rhaglen waith ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor, a chytunwyd i wahodd yr Aelodau Cabinet Arweiniol i'r cyfarfod hwnnw; cytunwyd hefyd bod y cyfarfod yn cael ei weddarlledu;
- nododd aelodau y byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio'n cyfarfod y prynhawn hwnnw i ystyried nifer o eitemau posibl i fod yn destun archwilio, a all effeithio ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor
- cyfeiriwyd at friff gwybodaeth y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf; ynghyd â gwybodaeth bellach yn ôl y gofyn; roedd adroddiad gwybodaeth ar wahân hefyd wedi'i gylchredeg yn manylu ynghylch y broses ymgynghori, a wnaed mewn perthynas ag Adolygiad Addysg Cynradd Rhuthun, yn ôl cais y Pwyllgor yn ei gyfarfod 19 Hydref 2017
- anogwyd aelodau i fynd i sesiwn hyfforddi am 9.30 a.m. ddydd Llun 29 Ionawr 2018 yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, yn ymwneud ag archwilio materion yn ymwneud ag addysg, a fyddai'n cael ei hwyluso ar y cyd gan Staff Addysg y Cyngor a GwE.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol fel y caiff ei manylu yn Atodiad 1 yr adroddiad.*

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU

Adroddodd gynrychiolwyr y Pwyllgor ar eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn -

Adroddodd y Cynghorydd Rachel Flynn ar yr Her Gwasanaeth gyda'r Gwasanaethau Cymunedol, lle trafodwyd amrywiaeth o faterion, yn cynnwys gofal seibiant i ofalwyr; cysylltu cymunedau a sut i hyrwyddo cysylltiadau ymhellach; delio gyda digartrefedd a materion cyllido. Roedd pawb a oedd yn bresennol yn fodlon bod materion yn cael eu rheoli'n dda yn y gwasanaeth. Byddai nodiadau ffurfiol o'r

cyfarfod yn cael eu cylchredeg i aelodau yn y dull arferol ym mriff gwybodaeth y Pwyllgor.

Gan nad oedd y Cadeirydd wedi gallu dod i'r cyfarfod Grŵp Buddsoddi Strategol, gofynnodd i'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill roi ychydig o adborth. Roedd manylion argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol ar gyfer prosiectau penodol wedi'u cylchredeg yn flaenorol i aelodau, a byddent yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet cyn i'r Cyngor roi cymeradwyaeth ffurfiol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at waith y Grŵp Buddsoddi Strategol wrth adolygu cynigion ar gyfer dyraniadau, gan dynnu sylw at y ffaith bod galw'n rhagori'n llwyr ar y cyllid sydd ar gael, gyda sawl prosiect yn cael eu lleihau yn dilyn asesiad risg.

Roedd y Cynghorydd Graham Timms wedi mynd i'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion a nododd fod y tri chynrychiolydd archwilio i gyd yn gyn-athrawon, ac fe ystyriodd y byddai cymysgedd mwy amrywiol o gynrychiolwyr yn addas. Holodd hefyd a oedd modd gwneud trefniadau i benodi dirprwyon pe na fyddai cynrychiolwyr yn gallu bod yn bresennol. Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio fod un dirprwy-gynrychiolydd eisoes wedi'i benodi. Nodwyd y byddai'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn ystyried materion perfformiad cyffredinol ar draws ysgolion mewn cyfarfodydd o'r dyfodol, y gellid gwahodd cynrychiolwyr ysgol i gyfarfodydd o'r dyfodol, i drafod perfformiad ysgolion unigol.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiadau ar lafar.*

Ar y pwynt hwn (11.25 a.m.) cymerodd yr aelodau egwyl am luniaeth.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 8 CYNLLUN CORFFORAETHOL AR GYFER HEN SAFLEOEDD YSGOL

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol adroddiad cyfrinachol (a gylchredwyd yn flaenorol), y Rheolwr Cyfleusterau, Asedau a'r Rhaglen Tai (Newid Busnes), a amlinellodd sut roedd y Cyngor yn cynnig rheoli a gwaredu safleoedd ysgol diangen yn y dyfodol. Roedd y Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth yn dilyn trafodaeth, mewn cyfarfod cynharach, am weithrediad yr argymhellion a oedd wedi codi o adolygiad addysg gynradd yn ardal Rhuthun.

Yn ystod ei gyflwyniad, rhoddodd yr Aelod Arweiniol wybod i'r Pwyllgor mai nod y Cyngor wrth ddelio â safleoedd ysgol diangen oedd gwireddu'r buddion mwyaf posibl ohonynt i'r Awdurdod a'r gymuned, wrth sicrhau ar yr un pryd nad oeddent yn dod yn safleoedd dolur llygad, a oedd yn peri rhwymedigaethau cynnal a chadw gormodol, ac felly'n straen fawr ar adnoddau ariannol gwerthfawr. Tynnodd sylw hefyd at y cymhlethdodau o amgylch perchnogaeth rhai o'r adeiladau a safleoedd ysgol, yn cynnwys cymalau a chyfamodau cyfyngol, ymddiriedolaethau a materion perchnogaeth tir ac ati. Yn amgaeedig gyda'r adroddiad oedd cynllun ar gyfer

safleoedd ysgol diangen, a oedd gyda gwybodaeth am bob safle diangen cyfredol, neu safleoedd y rhagwelwyd y byddent yn dod yn ddiangen o fewn y ddwy flynedd nesaf, manylion ynghylch eu perchnogaeth a chynigion cyfredol y Cyngor ar gyfer y safleoedd hynny. Hefyd yn amgaeedig oedd dogfen yn amlinellu'r dull a gymerwyd gan y Cyngor, unwaith roedd hen ysgol wedi'i dynodi'n safle nad oedd ei hangen.

Rhoddodd yr Aelod Arweiniol wybod i Aelodau, o ganlyniad i brofiadau'r gorffennol, bod y Cyngor bellach wedi pennu terfyn amser i gofrestru diddordeb defnydd cymunedol, ac i gymeradwyo cynllun busnes ar sail dystiolaeth ar gyfer defnyddio'r safle yn y dyfodol. Y rheswm dros hyn oedd, tra bod yr adeilad yn wag ac ym mherchnogaeth y Cyngor, roedd yr Awdurdod yn atebol am yr adeilad a chynnal a chadw'r safle, yn cynnwys costau ar gyfer gwneud y safle'n ddiogel. Gan gyfeirio at safleoedd diangen a restrwyd yn yr adroddiad a oedd naill ai ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth neu fod eu perchnogaeth yn dal yn destun ymchwiliad, dywedodd yr Aelod Arweiniol y byddai'r safle(oedd) yn cael eu gwerthu a'r derbynebau'n cael eu cadw mewn ymddiriedolaeth, hyd nes y datryswyd y materion ymddiriedolwr, unwaith roedd digon o amser wedi mynd heibio ac os oedd modd olrhain yr ymddiriedolwyr neu eu buddiolwyr.

Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, gwnaeth yr Aelod Arweiniol a swyddogion -

- roi gwybod y byddai achosion busnes a gyflwynwyd yn y dyfodol fel cynigion ar gyfer adeiladau ysgol newydd sy'n cael eu cyflwyno i'r Grŵp Buddsoddi Strategol a'r Cabinet, yn gorfod cynnwys manylion ynghylch beth roedd y Gwasanaeth Addysg yn cynnig ei wneud gydag unrhyw asedau neu safleoedd diangen, yn codi o'r cynnig
- cadarnhau bod Siarter y Cyngor Sir gyda chynghorau tref a chymuned yn gofyn bod y Cyngor yn ceisio datganiadau o ddiddordeb gan gynghorau tref a chymuned, mewn unrhyw ased sydd ym mherchnogaeth y sir, nad oedd eu hangen Gallai'r Cyngor Sir gynnig trosglwyddo ased dros ben i gyngor tref neu gymuned, a oedd â chynllun busnes cadarn a chytûn ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol. Byddai swyddogion o'r Gwasanaeth a Moderneiddio Busnes (BIMS) ar gael i gynghorau tref a chymuned neu grwpiau cymunedol a gyfansoddwyd, i'w helpu i archwilio opsiynau posibl a llunio'r cynllun busnes gofynnol. Ni fyddai unrhyw ased yn cael ei drosglwyddo oni bai bod cyllid digonol wedi'i ddiogelu gan y corff a gyfansoddwyd, i weithredu'r cyfleuster ar gyfer y dyfodol hyd y gellir ei ragweld. Ond os oedd cyfleuster cymunedol eisoes yn gweithredu o fewn y gymuned honno, roedd y Cyngor yn annhebygol o gytuno i drosglwyddo ased i'r gymuned honno ar gyfer pwrpas tebyg
- rhoi gwybod, unwaith y byddai ased yn cael ei drosglwyddo i gyngor neu gorff arall a gyfansoddwyd, ni fyddai'r Cyngor yn atebol am unrhyw gostau a oedd yn gysylltiedig gyda'r ased yn y dyfodol. Os na fyddai'r sefydliad a oedd wedi caffael yr adeilad/safle gan y Cyngor heb unrhyw ddefnydd ar ei gyfer yn y dyfodol, byddai pob rhwymedigaeth yn aros gyda nhw. Ond roedd gan y Cyngor y pwerau i weithredu cyfamodau adfachu gydag unrhyw asedau a drosglwyddodd i sefydliadau eraill, felly pe bai'r sefydliadau hynny'n cael gwared ar yr ased o fewn y cyfnod amser a nodwyd yng nghytundeb y trosglwyddiad, byddai'r Cyngor yn gymwys i adfachu canran benodol o'r derbyniad cyfalaf
- cadarnhawyd, os byddai'r Cyngor yn adeiladu ysgol ffydd newydd ar dir sydd ym mherchnogaeth yr esgobaeth, byddai perchnogaeth y safle'n dychwelyd i'r

Esgobaeth, os ystyriwyd nad oedd angen yr ysgol honno ar unrhyw adeg yn y dyfodol. Ond, os caiff ei hadeiladu ar dir ym mherchnogaeth y cyngor, byddai perchnogaeth y safle'n dychwelyd i'r Cyngor

- rhoi gwybod, os byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i olrhain buddiolwyr Ymddiriedolaeth, a oedd wedi rhoi tir yn rhodd at ddibenion darparu gweithgareddau addysgol, ac nad oedd unrhyw benderfyniad ar y gweill, y byddai Adran Gyfreithiol y Cyngor yn dechrau trafodaethau gyda'r Comisiwn Elusennau gyda'r bwriad o geisio caniatâd i waredu'r safle. Unwaith y caiff ei werthu, a bod yr holl gostau cynnal a chadw a rheoli wnaed gan y Cyngor yn cael eu hadennill, byddai'r arian yn cael ei ddal mewn 'cyfrif dal' hyd nes y byddai buddiolwyr yn cael eu holrhain
- cadarnhau bod y Cyngor bob amser yn ceisio gwireddu gwerth am arian wrth waredu asedau dros ben. Ond roedd ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i fuddion y gymuned
- cadarnhawyd, os oedd yn briodol, y gallai'r Awdurdod ymgeisio am ganiatâd cynllunio ar safle cyn ei waredu, ond byddai angen trafod y costau a'r buddion o ddefnyddio'r dull hwn gyda'r Adran Gynllunio a'r gwasanaethau eraill, yn dibynnu ar y math o ganiatâd cynllunio a geisiwyd, h.y. os oedd y math o ganiatâd a geisiwyd â'r potensial i gefnogi darpariaeth o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor
- rhoi gwybod bod y Cyngor wedi ceisio sefydlu a 'mapio' pob cyfleuster cymunedol sydd ar gael ar draws y sir dros y blynyddoedd diweddar. Ond roedd hyn wedi profi'n anodd iawn, gan fod nifer fawr ohonynt yn cael eu gweithredu gan sefydliadau gwirfoddol, h.y. eglwysi, capeli, sefydliadau cymunedol
- egluro'r broses ar gyfer dynodi 'mannau gwyrdd' o fewn y prosesau Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Os oedd y dref neu gymuned eisiau i'r Cyngor drosglwyddo ased dros ben iddynt ar gyfer y diben o gael ei ddynodi fel man gwyrdd, byddent yn gyntaf yn gorfod archwilio'r angen am fan gwyrdd fel rhan o'r broses CDLl, a
- rhoi gwybod ei bod nawr yn ofynnol i'r Cyngor ystyried buddion cymunedol, y gwerth ariannol gorau a chynaliadwyedd tymor hir pob penderfyniad yng nghyd-destun darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cyn dod â'r drafodaeth i ben, gofynnodd y Pwyllgor i gael gwybodaeth am sut roedd sawl ysgol Eglwys yn y sir wedi'u lleoli ar dir ym mherchnogaeth y Cyngor ac i'r gwrthwyneb, a phe bai unrhyw ysgol o blith y rhain yn dod yn wag/yn ddiangen, pwy fyddai'n gyfrifol am eu cynnal a'u cadw, a'u gwaredu.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y sylwadau uchod, i dderbyn y wybodaeth a roddwyd a chefnogi'r dull a gymerwyd gan y Cyngor, gyda'r bwriad o wireddu'r buddion mwyaf posibl, a chael y gwerth gorau gan safleoedd ysgol diangen.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm.